| CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
| --- | --- |
| **Is-ddeddfwriaeth**<br>2006 Rhif | **Subordinate Legislation**<br>2006 No |
| **Deddf Nawdd Cymdeithasol 1990 a Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996** | **Social Security Act 1990 and Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996** |
| **Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006** | **The Home Energy Efficiency Scheme (Categories of Works and Maximum Amounts of Grant)(No.3) (Wales) Determination 2006** |
| Wedi'i wneud 4 Hydref 2006<br>Yn dod i rym 5 Hydref 2006 | Made 4 October 2006<br>Coming into force 5 October 2006 |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Dyfarniad a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 fel y'i diwygiwyd gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, sydd bellach yn arferadwy ganddo o ran Cymru, ac yn unol â Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000: | The National Assembly for Wales makes the following Determination in exercise of the power conferred on the Secretary of State by Section 15 of the Social Security Act 1990 as amended by Section 142 of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996, which is now exercisable by it in relation to Wales, and pursuant to the Home Energy Efficiency Scheme (Wales) Regulations 2000: |
| **Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu** | **Name, commencement, application and revocation** |
| **Dehongli** | **Interpretation** |
| 1. –(1)Enw'r Dyfarniad hwn yw Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 3) (Cymru) 2006 ac mae'n effeithiol o 5 Hydref 2006 ymlaen. | 1. –(1) This Determination is called the Home Energy Efficiency Schemes (Categories of Works and Maximum amounts of Grant)(No.3)(Wales) Determination 2006 and has effect from 5 October 2006. |
| (2) Mae'r Dyfarniad yn gymwys i Gymru. | (2) The Determination applies to Wales. |
| (3) Mae Dyfarniad Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Categorïau o Waith ac Uchafsymiau Grant) (Rhif 2) (Cymru) 2001 wedi'i ddirymu. | (3) The Home Energy Efficiency Scheme (Categories of Works and Maximum Amounts of Grant) (No 2) (Wales) Determination 2001 is revoked. |
| **2. Yn y Dyfarniad hwn,** | **2. In this Determination,** |
| ystyr "inswleiddiad waliau dwbl" *("cavity wall insulation")* yw inswleiddiad rhwng dalennau mewnol ac allanol waliau dwbl yr annedd | "cavity wall insulation" *("inswleiddiad waliau dwbl")* means insulation between the internal and external leaves of the cavity walls of the dwelling; |
| ystyr "defnydd gwrth-ddrafft" *("draught-proofing")* yw defnydd gwrth-ddrafft i'r annedd neu ynddi ynghyd ag unrhyw gyfrwng awyru | "draught proofing" *("defnydd gwrth-ddrafft")* means draught proofing to or in the dwelling together with additional means of ventilation for any rooms which would otherwise be |

| | |
|---|---|
| ychwanegol ar gyfer unrhyw ystafelloedd na fyddent fel arall yn cael eu hawyru'n ddigonol ar ôl darpariaeth o'r fath; | inadequately ventilated after such provision; |
| ystyr "HEES" *("HEES")* yw'r categorïau o waith fel y'u dyfernir ym mharagraff 3 isod a all fod ar gael o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref; | "HEES" *("HEES")* means the categories of works as determined in paragraph 3 below which may be available under the Home Energy Efficiency Scheme; |
| ystyr "HEES a Mwy" *("HEES Plus")* yw'r categorïau o waith fel y'u dyfernir ym mharagraff 8 isod a all fod ar gael o dan y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref a Mwy; | "HEES Plus" *("HEES a Mwy")* means the categories of works as determined in paragraph 7 below which may be available under the Home Energy Efficiency Plus Scheme; |
| ystyr "inswleiddiad croglofft" *("loft insulation")* yw inswleiddiad mewn unrhyw wagle to hygyrch yn yr annedd, gan gynnwys inswleiddio unrhyw danc dŵr oer ac unrhyw bibellau cyflenwi dŵr, pibellau gorlifo a phibellau ehangu mewn gwagle o'r fath; | "loft insulation" *("inswleiddiad croglofft")* means insulation in any accessible roof space in the dwelling, including the insulation of any cold water tank and any water supply, overflow and expansion pipes in such a space; |
| ystyr "gwagle to" (*roof space*) yw gwagle rhwng to annedd a nenfwd unrhyw ystafell a ddefnyddir er mwyn cael lle i fyw neu sydd ar gael at y diben hwnnw, heb fod y gwagle hwnnw wedi'i wahanu'n llwyr o'r to gan unrhyw ystafell arall; | "roof space" *("gwagle to")* means space between the roof of a dwelling and the ceiling of any room used or available for use for the purposes of living accommodation, that space not being wholly separated from the roof by any other room; |
| **Categorïau o waith y gellir cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer o dan HEES** | **Categories of works for which an application for a grant may be approved under HEES** |
| **3**. Nodir y categorïau o waith y caniateir cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer o dan HEES ym mharagraffau 4 i 6 isod. | **3**. The categories of works for which an application for a grant may be approved under HEES are set out in paragraphs 4 to 6 below. |
| **Anheddau â gwresogyddion trydan oriau brig neu wresogyddion nwy potel cludadwy neu sefydlog neu wresogyddion paraffîn,** | **Dwellings with on-peak electricity heaters or portable or fixed bottled gas heaters or paraffin heaters,** |
| **4**. Os gwresogyddion trydan oriau brig neu wresogyddion nwy potel cludadwy neu sefydlog neu gwresogyddion paraffîn yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais adeg gwneud cais | **4**. Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is on-peak electricity heaters or portable or fixed bottled gas heaters or paraffin heaters |
| Darparu – | The provision of – |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |

| | |
|---|---|
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth; | foam insulated dual immersion hot water tanks or hot water tank insulation jackets; |
| gwresogyddion nwy prif gyflenwad sefydlog neu os nad oes nwy ar gael o'r prif gyflenwad, stôr-wresogyddion trydan oriau trai; | fixed mains gas heaters or if mains gas is not available, off-peak electricity storage heaters; |
| rheolyddion amser ar gyfer gwresogi dŵr. | timer controls for water heating. |
| **Anheddau â thanau tanwydd solet gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi rheiddiaduron a bwyleri tanwydd solet** | **Dwellings with solid fuel fires including those supplying radiators and solid fuel boilers** |
| **5**. Os tanau tanwydd solet gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi rheiddiaduron a bwyleri tanwydd solet yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais, adeg gwneud cais, darparu – | **5**. Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is solid fuel fires including those supplying radiators and solid fuel boilers, the provision of – |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| defnydd gwrth-ddrafft | draught proofing |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu (os oes bwyleri ôl i'r tanau) siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth | foam insulated dual immersion hot water tanks or (if fires have back boilers) hot water tank insulation jackets. |
| **Anheddau â gwres storio trydan oriau trai neu wres canolog o fwyleri nwy, olew, tanwydd solet neu wres nwy prif gyflenwad** | **Dwellings with off-peak electric storage heating or central heating from gas, oil, solid fuel boilers or mains gas heating** |
| **6**. Os gwres storio trydan oriau trai neu wres canolog o fwyleri nwy, olew, tanwydd solet neu wres nwy prif gyflenwad yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais, adeg gwneud cais, darparu - | **6**. Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is off-peak electric storage heating or central heating from gas, oil, solid fuel boilers or mains gas heating, the provision of – |
| inswleiddiad croglofft ; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth. | foam insulated dual immersion hot water tanks or hot water tank insulation jackets. |
| **Categorïau o waith y caniateir** | **Categories of works for which an** |

| | |
|---|---|
| **cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer o dan HEES a Mwy** | **application for a grant may be approved under HEES Plus** |
| **7**. Nodir y categorïau o waith y caniateir cymeradwyo cais am grant ar eu cyfer o dan HEES a Mwy ym mharagraffau 8 i 10 isod. | **7**. The categories of works for which an application for a grant may be approved under HEES Plus are set out in paragraphs 8 to 10 below. |
| **Anheddau â gwresogyddion trydan oriau brig neu wresogyddion nwy potel cludadwy neu sefydlog neu wresogyddion paraffîn,** | **Dwellings with on-peak electricity heaters or portable or fixed bottled gas heaters or paraffin heaters,** |
| **8.** Os gwresogyddion trydan oriau brig neu wresogyddion nwy potel cludadwy neu sefydlog, neu wresogyddion paraffîn yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais, adeg gwneud cais | **8.** Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is on-peak electricity heaters or portable or fixed bottled gas heaters or paraffin heaters |
| (a) ar gyfer anheddau sy'n ddigon mawr ar gyfer gosod gwres canolog a lle mae nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu – | (a) for dwellings which are large enough for gas central heating to be installed and where a mains gas supply is available, the provision of – |
| systemau gwres canolog nwy ar gyfer y prif fannau byw; | gas central heating systems for main living areas; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| inswleiddiad croglofft | loft insulation |
| defnydd gwrth-ddrafft | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni | energy efficient light bulbs |
| (b) fel arall ar gyfer anheddau lle mae nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu – | (b) otherwise for dwellings where a mains gas supply is available, the provision of – |
| gwresogyddion nwy prif gyflenwad sefydlog; | fixed mains gas heaters; |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl) | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth; | foam insulated dual immersion hot water tanks or hot water tank insulation jackets; |
| (c) fel arall, ar gyfer anheddau lle nad oes nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu - | c) otherwise, for dwellings where no mains gas supply is available, the provision of – |
| stôr-wresogyddion trydan oriau trai neu systemau gwres canolog olew ar gyfer y prif fannau byw; | off peak electric storage heaters or oil central heating systems for main living areas; |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |

| | |
|---|---|
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni: | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth. | foam insulated dual immersion hot water tanks or hot water tank insulation jackets. |
| **Anheddau â thanau tanwydd solet gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi rheiddiaduron a bwyleri tanwydd solet** | **Dwellings with solid fuel fires including those supplying radiators and solid fuel boilers** |
| **9**. Os tanau tanwydd solet gan gynnwys y rhai sy'n cyflenwi rheiddiaduron a bwyleri tanwydd solet yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais, adeg gwneud cais, | **9**. Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is solid fuel fires including those supplying radiators and solid fuel boilers, |
| (a) ar gyfer anheddau sy'n ddigon mawr ar gyfer gosod gwres canolog nwy a lle mae nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu – | (a) for dwellings which are large enough for gas central heating to be installed and where a mains gas supply is available, the provision of – |
| systemau gwres canolog nwy ar gyfer y prif fannau byw; | gas central heating systems for main living areas; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| inswleiddiad croglofft | loft insulation |
| defnydd gwrth-ddrafft | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni ; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm oni bai bod bwyleri ôl i'r tanau neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth; | foam insulated dual immersion hot water tanks unless fires have back boilers, or hot water insulation jackets; |
| (b) fel arall ar gyfer anheddau lle mae nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu - | (b) otherwise for dwellings where a mains gas supply is available, the provision of – |
| gwresogyddion nwy prif gyflenwad neu drosi tanau agored yn danau caeedig; | mains gas heaters or conversion of open fires to closed ; |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl (pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm oni bai bod bwyleri ôl i'r tanau neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth; | foam insulated dual immersion hot water tanks unless fires have back boilers, or hot water insulation jackets; |

| | |
|---|---|
| (c) fel arall, ar gyfer anheddau lle nad oes nwy ar gael o'r prif gyflenwad, darparu - | (c) otherwise, for dwellings where no mains gas supply is available, the provision of – |
| stôr-wresogyddion trydan oriau trai neu drosi tanau agored yn danau caeedig neu systemau gwres canolog olew ar gyfer y prif fannau byw; | off peak electric storage heaters or conversion of open fires to closed fires or oil central heating systems for main living areas; |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl ( pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm oni bai bod bwyleri ôl i'r tanau neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth. | foam insulated dual immersion hot water tanks unless fires have back boilers, or hot water tank insulation jackets. |
| **Anheddau â gwres storio trydan oriau trai neu wres canolog o fwyleri nwy, olew, tanwydd solet neu wres nwy prif gyflenwad** | **Dwellings with off-peak electric storage heating or central heating from gas, oil, solid fuel boilers or mains gas heating** |
| **10**. Os gwres storio trydan oriau trai neu wres canolog o fwyleri nwy, olew, tanwydd solet neu wres nwy prif gyflenwad yw prif ffynhonnell y gwresogi aer yn yr annedd sy'n destun cais, adeg gwneud cais, darparu - | **10**. Where the principal source of space heating in the dwelling which is the subject of an application, at the time of an application, is off-peak electric storage heating or central heating from gas, oil, solid fuel boilers or mains gas heating, the provision of – |
| inswleiddiad croglofft; | loft insulation; |
| inswleiddiad waliau dwbl ( pan fo'n bosibl); | cavity wall insulation (where possible); |
| defnydd gwrth-ddrafft; | draught proofing; |
| bylbiau golau sy'n effeithlon o ran ynni; | energy efficient light bulbs; |
| tanciau dŵr poeth â thwymwr tanddwr dwbl wedi'u hinswleiddio â ffôm neu siacedi inswleiddio tanciau dŵr poeth; | foam insulated dual immersion hot water tanks or hot water tank insulation jackets; |
| trwsio bwyleri presennol neu osod bwyleri cyfatebol yn lle'r rhai presennol (os nad yw'r rheini'n gost-effeithiol a'u bod y tu hwnt i gael eu trwsio). | repairs to existing boilers or replacement of existing boilers (if not cost effective and beyond repair) with equivalent boilers. |
| **Uchafswm y grant o dan HEES** | **Maximum amount of grant under HEES** |
| **11**. Uchafswm y grant y caniateir ei gymeradwyo o dan HEES yw £2,000. | **11**. The maximum amount of grant which may approved under HEES is £2,000. |
| **Uchafswm y grant o dan HEES a Mwy** | **Maximum amount of grant under HEES Plus** |
| **12**. Uchafswm y grant y caniateir ei | **12**. The maximum amount of grant which |

| | |
|---|---|
| gymeradwyo o dan HEES a Mwy nad yw'n cynnwys system gwresogi olew yw £3,600.<br><br>**13.** Uchafswm y grant y caniateir ei gymeradwyo o dan HEES a Mwy ar gyfer gwaith o dan baragraffau 8(c), 9(c) a 10 uchod sy'n cynnwys system gwresogi olew yw £5,000.<br><br>Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Dyddiad | may be approved under HEES Plus which excludes an oil central heating system is £3,600.<br><br>**13.** The maximum amount of grant which may be approved under HEES Plus for work under paragraphs 8(c), 9(c) and 10 above which includes an oil central heating system is £5,000.<br><br>Signed on behalf of the National Assembly for Wales<br><br>Date |
| | |